**<u>COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT</u>**

**REPORT TO:** **<u>THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**

**SUBJECT:** **<u>PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - DYDD MAWRTH, 27 GORFFENNAF 2021 DYDD MAWRTH, 27 GORFFENNAF 2021</u>**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. HEALY (CADEIRYDD)

Councillors M. Cook (Is-gadeirydd)
G. A. Davies
J. Millard
M. Moore
G. Paulsen
J. Holt
J. Hill

WITH:

| |
|---|
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Andrew Parker (Swyddog) |
| Cynghorydd Nigel Daniels (Aelod Pwyllgor) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Dymunai'r Grŵp Llafur iddo gael ei gofnodi nad oedd unrhyw Aelodau o'r Grŵp Llafur yn bresennol gan y cafodd y cyfarfod ei symud i ddarparu ar gyfer newid munud olaf gan y Grŵp | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mwyafrifol heb unrhyw ymgynghoriad gyda'r Grŵp Llafur, hyd yn oed ar ôl i Arweinydd y Grŵp Llafur ymateb i roi gwybod fod yr amser newydd yn cyd-daro gyda chyfarfod arferol y Grŵp Llafur cyn y Cyngor. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>SYMUD TUAG AT FWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS RHANBARTHOL GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar ddatblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent a chylch nesaf yr Asesiad o Lesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol. Dywedwyd y cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ar 29 Gorffennaf 2021 i geisio cymeradwyaeth ar gyfer symud tuag at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r broses i'w dilyn yng nghyswllt symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent. Nodwyd fod y Cynlluniau Llesiant (2018-2023) presennol yn ffurfio'r trefniadau cyflawni am y ddwy flynedd nesaf ac y byddai'r rhain yn parhau i gael eu cyflawni gan y partneriaethau lleol a gefnogir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a chraffu gan Bwyllgorau Craffu partneriaeth ym mhob un o'r ardaloedd lleol.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at yr amserlenni ar gyfer y broses a dywedodd fod trefniadau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Rhanbarthol yn cael eu trafod ymysg arweinwyr gwasanaethau democrataidd ac mai'r nod oedd cwblhau hyn i ateb gofynion cymeradwyaeth yr asesiad lleol o anghenion llesiant. Byddai'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | craffu ar y cynlluniau llesiant presennol yn parhau drwy Bwyllgorau Craffu lleol tan 2023. Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai gwaith yn dal i fod ar gyfer Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, fodd bynnag byddai'r gwaith hwn yn symud yn raddol i gael ei wneud yn rhanbarthol.<br><br>Yn nhermau cymeradwyo adroddiadau, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Casnewydd a Thorfaen eisoes wedi cymeradwyo symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent gyda Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy yn cael eu hystyried yr wythnos hon.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd ac Aelodau yr adroddiad a theimlwyd y dylid annog gwaith partneriaeth a chydnabod manteision gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a phartneriaid.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai unrhyw oblygiadau cost yn nhermau amser swyddogion oherwydd y newid i'r bartneriaeth ranbarthol. Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at yr adroddiad a dywedodd na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor, fodd bynnag byddai gwaith ychwanegol ar gyfer staff yn y Tîm Polisi oedd yn cefnogi'r PSB. Byddai'r Tîm Polisi yn awr yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Gwent i roi'r gwaith rhanbarthol yn ei le. Roedd disgwyliad hefyd y byddai'r Tîm Polisi yn parhau i gefnogi'r bartneriaeth cyflawni lleol.<br><br>Yn nhermau adnoddau, byddai cadeiryddiaeth a gweinyddiaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol newydd yn newid mewn cylch rhwng partneriaid statudol. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn yr hydref yn cytuno ar y Cylch Gorchwyl ac yn penodi Cadeirydd. Caniateid i sefydliad y Cadeirydd a enwebwyd ymgymryd â gweinyddiaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol am gyfnod penodol o 2 flynedd, ac wedyn penodid cadeirydd arall ar ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd. Teimlwyd fod hon yn ffordd deg i symud ymlaen a gweinyddu ar sail ranbarthol.<br><br>Gofynnodd yr Aelod hefyd os y caniateir symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac os oedd Llywodraeth Cymru yn annog y newid hwn.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y caiff y newid ei ganiatáu o fewn y Ddeddf a nododd yr adroddiad yn dweud y caniateir i ddau neu fwy o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ffurfio arfer o'r fath. | |

Er hynny, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr na allai fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent, felly byddai angen diddymu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol i symud ymlaen ar sail ranbarthol.

Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn gwybod am y cynlluniau yng Ngwent i symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld mwy o weithio rhanbarthol ac wedi annog yr awdurdodau lleol yng Ngwent i symud ymlaen â hyn. Rhanbarth Gwent yw'r cyntaf i gael ei ffurfio yng Nghymru er bod ardaloedd eraill yn edrych ar y ffordd hon o weithio.

Roedd Aelod yn croesawu y byddai pob partner yn cael eu trin yn gyfartal a chael Cadeirydd a gweinyddiaeth mewn cylch, fodd bynnag gofynnodd yr Aelod os byddai angen Pwyllgor Craffu lleol.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu presennol barhau i weithio am y 2 flynedd nesaf gan ei bod yn bwysig craffu ar y cynllun lleol tan 2023. Ar ôl 2023 efallai na fydd angen Pwyllgorau Craffu lleol gan y byddai hyn yn cael ei wneud ar sail ranbarthol. Ychwanegodd Swyddog fod partneriaid yn cyflawni eu craffu perthnasol yn wahanol fel y dywed yr adrodded, felly mae angen i ganfod sut y caiff hyn ei gyflawni yn y dyfodol.

Yn nhermau cynrychiolwyr etholedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a'r Pwyllgor Craffu Rhanbarthol, nodwyd na chafodd hyn ei drafod hyd yma yn nhermau craffu, fodd bynnag cynrychiolydd pob awdurdod lleol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol fyddai Arweinydd y Cyngor a'r Rheolwr Gyfarwyddwr.

Yng nghyswllt aelodaeth o'r Pwyllgor Craffu Rhanbarthol, rhagwelir y byddir yn rhoi ystyriaeth i aelodaeth maes o law ac y byddai'n seiliedig ar gymesuredd ar draws y sefydliadau, ac y byddai unrhyw argymhellion ar faterion yn y dyfodol yn dod yn ôl i Bwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gael eu hystyried.

CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a nodi'r argymhellion dilynol fel y'u manylir yn Opsiwn 1:-

| | | |
|---|---|---|
| | **Argymhelliad 1:** Symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol fel yr amlinellir yn yr adroddiad gyda phwysigrwydd cynnal partneriaethau lleol cryf.<br><br>**Argymhelliad 2:** Sefydlu craffu rhanbarthol a'r trefniadau sy'n datblygu, ac i dderbyn manylion pellach fel sy'n briodol.<br><br>**Argymhelliad 3:** Bydd yr asesiad lleol o lesiant, i gael ei gytuno erbyn 5 Mai 2022, yn rhan o raglen waith Pwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2021/22.<br><br>**Argymhelliad 4:** Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol arfaethedig (Atodiad 5) ac argymhellion i wneud unrhyw newidiadau perthnasol i strwythurau a chyfansoddiad y pwyllgor.<br><br>**Argymhelliad 5:** Datblygu Partneriaethau Cyflawni Lleol i gael eu hystyried mewn rhaglenni gwaith craffu lleol.<br><br>**Argymhelliad 6:** Parhau i gefnogi craffu ar y Cynlluniau Llesiant cyfredol hyd 2023 drwy drefniadau craffu partneriaeth lleol.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd J. Millard ymatal ei bleidlais. | |